COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 YN FLAENOROL) A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD IAU, 6 TACHWEDD 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | S Easterbrook | GC Haines |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | P Ford | RM James | W J Kendall |
| M Lewis | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

D M Hughes, J Llewellyn-Hopkins a/ac R Williams

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| David Wright | Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd |
| Raeanna Grainger | Group Manager, IAA & Safeguarding |
| Charlotte Pickin | Rheolwr Gwasanaeth – DoLS/LPS ac Ystâd Ddiogel |
| Sophie Moore | Rheolwr Grŵp – Atal a Lles |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp (Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc) |
| Kirsty Williams | Rheolwr Partneriaeth a CSP |
| Jessica Ware | Swyddog Cynllunio a Chomisiynu Strategaeth Tai |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |

Datganiadau o Ddiddordeb

Claire Marchant – Personol – Eitem 4 – Cadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

GC Haines a WJ Kendall – Rhagfarnus - Eitem 5 – Fel Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu mewn perthynas â thrafodaethau ynghylch y cynlluniau arfaethedig i ymestyn Carchar y Parc Ei Fawrhydi
F D Bletsoe a S Easterbrook – Personol – Eitem 5 – Fel Cynghorwyr Tref
S Bletsoe – Eitem 5 – Fel ymddiriedolwr a gofrestrwyd yn Nhŷ'r Cwmnïau ar gyfer Canolfan Gymunedol Melin-Wyllt
M Lewis – Personol – Eitem 5 – Rhedeg Canolfan Gymunedol William Trigg ym Mlaengarw ar drwydded gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## 51. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles dyddiedig 11 a 25 Medi 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 6 Tachwedd 2025 |

## 52. Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2024/25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol ynghyd â chais am wybodaeth ychwanegol: |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>

**Argymhellion:**

1. Cyfeiriodd yr aelodau at gais cynllunio oedd yn cynnig ehangu Carchar y Parc a mynegi eu pryderon ynghylch y pwysau cynyddol y gallai hyn ei roi ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys darparu gofal cymdeithasol ychwanegol a threfniadau cefnogol ar ôl rhyddhau, gan gynnwys darparu tai a'r effaith bosibl ar ddiogelu carcharorion. Felly, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ystyried ymateb i'r ymgynghoriad gan dynnu sylw at y pwysau ychwanegol y gallai hyn ei osod ar y Gwasanaeth.

2. Cydnabu'r Pwyllgor y gwelliannau a wnaed yng Ngharchar y Parc EF i leihau cyfraddau hunanladdiad a hunan-niweidio a gwella'r berthynas rhwng y carchar a'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac **argymhellodd** anfon gohebiaeth at Lywodraethwr y carchar yn cydnabod y gwaith ac yn gofyn am eglurhad ynghylch sut mae'r carchar yn bwriadu parhau i gynnal a sicrhau diogelwch pob carcharor pe bai'r estyniad arfaethedig i'r carchar yn cael ei gymeradwyo ac yn ei wahodd i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor i siarad ynghylch diogelu.

3. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y risg gorfforaethol sylweddol a achosid gan yr amserlenni oedd yn gysylltiedig ag Amnewid System Ddigidol, a chan gydnabod bod y goblygiadau'n berthnasol i'r Cyngor cyfan, **argymhellodd** y canlynol**:**

    a. meintioli'r gofynion cyllidebol i gyflawni'r trawsnewid o fewn yr amserlen dynn ac ystyried dyrannu adnoddau ychwanegol i gyflawni'r newid;
    b. ystyried dyrannu Swyddog Arweiniol TGCh pwrpasol i'r prosiect newydd;
    c. bod yr Aelodau'n derbyn diweddariad cynnydd ysgrifenedig brys ynghylch y newid; a
    d. bod gohebiaeth yn cael ei hanfon at Lindsey Phillips yn ei gwahodd i siarad ag Aelodau ynghylch y Fframwaith Digidol mewn Gofal Cymdeithasol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a lansiwyd ym mis Hydref 2025 a lle Pen-y-bont ar Ogwr ynddo.

4. Mynegodd yr aelodau bryder nad oedd dysgwyr oedd yn cael eu haddysgu gartref efallai yn cael cysylltiad digonol â'r Awdurdod Lleol, a dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y lefel wedi cael ei gosod mewn Canllawiau Cenedlaethol. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid gofyn am gyngor cyfreithiol i weld a ellid teilwra'r Canllawiau i gynyddu'r cyswllt â'r dysgwyr a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu'n briodol. **Argymhellodd** y Pwyllgor ymhellach gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid i ystyried ychwanegu'r mater at eu Blaenraglen Waith er mwyn monitro'r sefyllfa.

</td>
</tr>
</table>

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | **Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>5. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch yr oedi canfyddedig wrth ddefnyddio'r gyllideb o £1 miliwn, na fyddai'n cael ei hailadrodd, oedd wedi cael ei chymeradwyo gan y Cabinet ar gyfer cynorthwyo ysgolion i leihau nifer y gwaharddiadau parhaol a **gofynnodd** am ddiweddariad ynghylch defnyddio'r cyllid, pryd y caiff ei ddefnyddio a'r cynnig sy'n cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag ysgolion gan gynnwys pryd y caiff ei ystyried ar gyfer penderfynu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 6 Tachwedd 2025 |

## 53. Strategaeth Hybiau Cymunedol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol ynghyd â chais am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>6. Dywedwyd wrth yr Aelodau yr ymgynghorid â rhanddeiliaid allweddol ym mhob cymuned ynghylch y Strategaeth arfaethedig ac y byddai eu barn yn cael ei cheisio i lunio sut olwg fyddai ar y Canolfannau yn eu hardal benodol hwy ac **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid trefnu gweithdy i'r holl Aelodau i ganiatáu i Gynghorwyr hefyd gyfrannu i'r Strategaeth ac ymgynghori ag Aelodau lleol yn benodol ynghylch Canolfannau arfaethedig yn eu Wardiau hwy.<br><br>7. Bu'r Pwyllgor yn trafod y diffyg aliniad rhwng addysg a'r Strategaeth ac **argymhellodd** y dylid ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio rhywfaint o ystâd yr ysgolion fel Canolfannau posibl a bod yr agwedd hon yn cael ei chynnwys yn y Strategaeth.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>8. Bu'r Pwyllgor yn trafod meysydd blaenoriaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a **gofynnodd** am gopi o Strategaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol oedd yn nodi'r saith maes blaenoriaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn seiliedig ar lefel yr angen a'r gwasanaeth a ddarperid ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 6 Tachwedd 2025 |

## 54. Diweddariad y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo’r Flaenraglen Waith (RhG) yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, yn nodi’r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith fel y cafodd ei chymeradwyo gan y Pwyllgor wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:<br><br>1. Adolygiad Allanol o Fodel Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau yn Seiliedig ar Gryfderau yn cael ei ymgorffori mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion; ac<br>2. Adroddiad pellach ynghylch y Strategaeth Hybiau Cymunedol (ar yr amser priodol yn gynnar yn 2026). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 6 Tachwedd 2025 |

## 55. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 6 Tachwedd 2025 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen yma os gwelwch yn dda

Terfynwyd y cyfarfod yn 13:31

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**